Yr amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Hydref 2017

Ar 19 Medi 2017 cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol i ystyried a chyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 26 Hydref 2017.

Ar 11 Hydref, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol at y Pwyllgor Busnes yn gofyn iddo ymestyn y terfyn amser ar gyfer adroddiad y Pwyllgor, o ystyried yr amserlen a oedd wedi dod i'r amlwg ar gyfer gwaith craffu seneddol ar y Bil. O ganlyniad i hynny, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyflwyno adroddiad diwygiedig, gan newid y terfyn amser ar gyfer adroddiadau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol o 26 Hydref 2017 i 23 Tachwedd 2017.